

Adroddiad i'r:	Pwyllgor Craffu Perfformiad
Dyddiad y cyfarfod:	29 Tachwedd 2018
Aelod/Swyddog Arweiniol:	Aelod Arweiniol Addysg, Plant a Phobl Ifanc/ Pennaeth Addysg a Gwasanaethau Plant
Awduron yr Adroddiad:	Prif Reolwr Addysg ac Arweinwyr Uwchradd a Chynradd GwE
Teitl:	Asesiadau Athrawon a Chanlyniadau Arholiadau CA4 Dros Dro

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Asesiadau Athrawon a ddilyswyd o'r Cyfnod Sylfaen i Gyfnod Allweddol 3 a pherfformiad arholiadau CA4 dros dro ysgolion uwchradd Sir Ddinbych.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Darparu gwybodaeth ynglŷn â pherfformiad asesiadau athrawon ac arholiadau allanol ysgolion Sir Ddinbych yn 2018.

3. Beth yw'r Argymhellion?

Bod yr aelodau'n adolygu a chyflwyno sylwadau ar berfformiad ysgolion yn erbyn y perfformiad blaenorol a chytuno ar feysydd i'w gwella.

4. Data cymharol

Mae'r adroddiad hwn (Atodiad 1) yn wahanol i flynyddoedd blaenorol er mwyn cymryd i ystyriaeth bod Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno newidiadau arwyddocaol i'r ffordd y caiff mesuryddion perfformiad eu hadrodd. Yn dilyn ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar gyhoeddi asesiadau athrawon yn y dyfodol, nid yw Llywodraeth Cymru bellach yn cyhoeddi data'r Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 na Chyfnod Allweddol 3 yn yr ysgol, yr awdurdod lleol nac ar lefel consortia ac felly heblaw am gymharu â chyfartaleddau cenedlaethol, nid oes gwybodaeth gymharol na gwybodaeth feincnodi ar gael.

Newidiadau i Feysydd Dysgu yn y Cyfnod Sylfaen

Ym mis Hydref 2014, adolygwyd Meysydd Dysgu (MD) y Cyfnod Sylfaen ar gyfer Iaith, Llythrennedd a Sgiliau Cyfathrebu a Datblygiad Mathemategol er mwyn eu gwneud yn gydnaws â Fframwaith Llythrennedd a Rhifedd Cenedlaethol yn ogystal â'u gwneud yn fwy ymestynnol. Yn unol â hyn, cafodd canlyniadau'r Cyfnod Sylfaen eu hailgalibro er mwyn eu gwneud yn gydnaws â disgwyliadau cynyddol y Meysydd Dysgu adolygedig.

Cyflwynwyd y MD adolygedig yn statudol o fis Medi 2015 ymlaen. Mae hyn yn golygu mai'r cohort o blant a ddechreuodd mewn dosbarth Derbyn ym mis Medi 2015 oedd y plant cyntaf i gael eu hasesu'n ffurfiol yn erbyn y canlyniadau adolygedig ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen yn haf 2018. Gan hynny, dylid osgoi cymharu canlyniadau Cyfnod Sylfaen ysgolion â blynyddoedd blaenorol gan nad ydynt yn cael eu mesur ar sail gymaradwy.

Cyfnod Allweddol 4 a Chyfnod Allweddol 5

Rhaid pwysleisio y bydd y wybodaeth ddechreuol ynglŷn â chanlyniadau CA4 yn cael eu rhannu ond ni ellir cael mynediad at ddata cymharol na data meincnodi ar hyn o bryd.

Gan hynny, mae angen cymryd gofal wrth ystyried y wybodaeth gan na fydd y dadansoddiadau na'r cymariaethau wedi'u cwblhau ar lefel genedlaethol nes dechrau'r flwyddyn nesaf. Caiff data a ddilyswyd ei ddarparu yn adroddiad mis Chwefror i aelodau, gan gynnwys data gwerth ychwanegol cymharol.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r adroddiad hwn yn cyfrannu at y flaenoriaeth gorfforaethol Pobl Ifanc: Man lle bydd pobl iau am fyw a gweithio ynddo a lle bydd ganddynt y sgiliau i wneud hynny.

Gweld bod pob plentyn sy'n cyflawni'r safon a ddisgwylir ar ddiwedd yr ysgol gynradd (Lefel 4, Cyfnod Allweddol 2) yn cyflawni 5 TGAU A*-C (Lefel 2 Cyfnod Allweddol 4), gan gynnwys Saesneg neu Gymraeg (iaith 1af) a Mathemateg, erbyn diwedd yr ysgol uwchradd.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Amh.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les? Gellir lawrlwytho adroddiad yr Asesiad o Effaith ar Lesiant o'r [wefan](#) a dylid ei gynnwys fel atodiad i'r adroddiad.

Sir Ddinbych ffyniannus

Sir Ddinbych wydn

Sir Ddinbych iachach

Sir Ddinbych fwy cyfartal

Sir Ddinbych gyda chymunedau cydlynol

Sir Ddinbych lle mae diwylliant bywiog a'r Gymraeg yn ffynnu

Sir Ddinbych sy'n gyfrifol yn fyd-eang

8. Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda'r Pwyllgorau Craffu ac eraill?

Amh.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Amh.

10. Pa risgiau sydd yna ac oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Bydd yr Awdurdod Lleol a GwE yn parhau i herio Penaethiaid a rheolwyr ysgolion i sicrhau bod yr ysgolion yn cymryd y camau gweithredu priodol er mwyn gwella safonau.

Lleihau unrhyw risgiau i gefnogaeth a heriau yn ysgolion Sir Ddinbych, mae Swyddogion Addysg yn yr Awdurdod yn monitro ac yn asesu ansawdd y gwasanaeth addysg rhanbarthol (GwE).

Sicrhau gwelliant yng nghanlyniadau arholiadau allanol.

Parhau i wella yn erbyn y gostyngiad yng Ngrant Llwybrau Dysgu 14-19 a chyllid Ymagwedd Dryloyw at Gostio a Phrisio Cronfa Gymdeithasol Ewrop.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Mae Erthygl 7.4.2(b) o Gyfansoddiad y Cyngor yn amlinellu pwerau'r Pwyllgor Archwilio mewn perthynas ag adolygu amcanion perfformiad a pholisi.

Swyddog Cyswllt:

Prif Reolwr Addysg

Ffôn: 01824 708027